Clecs Casnewydd

Rhifyn rhif 6

Tymor yr Haf 2014

Croeso i'n Gwefan!

Ar ôl llawer o drafod, cynllunio a pharatoi, mae gwefan newydd sbon Ysgol Gymraeg Casnewydd yn barod i'w lawnsio!

Rydyn ni'n lwcus iawn i gael cyngynlluniwr graffeg yn gweithio o fewn yr ysgol. Mae Mrs Ann Sneddon, cynorthwydd yn y dosbarth Derbyn, wedi ymchwilio a thrafod gyda'r Llywodraethwyr cyn dod i benderfyniad am fformat y wefan newydd. Gan ein bod yn cynllunio'r wefan yn fewnol , dyma fachu ar y cyfle i ofyn i'n disgyblion am help. Dyma oedd cyfle gwych i gael llais ein plant fel mewnbwn i'r syniadau.

Wrth helpu gyda'r cynllunio, dyma ddywedodd rhai o'r disgyblion o Flynyddoedd 3, 4 a 5. "Roeddwn i'n hoff iawn o arddurno'r wefan," meddai Courtney o Flwyddyn 5;

"Rydw i'n hoffi helpu'r ysgol," oedd barn Luke, hefyd o flwyddyn 5. Roedd Evelyn o Flwyddyn 3 yn cytuno gydag e. Dywedodd Carmen o Flwyddyn 4 "Mae e am yr ysgol ac mae'r plant yn bwysig i'r ysgol hefyd, a'r athrawon, ac mae nhw'n gallu dweud wrth bobl eraill i edrych ar y wefan."

Bydd y wefan newydd yn dangos oriel o ffotograffau o'r ystod eang o weithgareddau sy'n digwydd y tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Hefyd ar y wefan bydd: diweddaru ar y clybiau sy'n rhedeg trwy'r flwyddyn; gwybodaeth ar weithgareddau'r CRhA; calendr yn danogs diwrnodau pwysig neu diwrndau hyfforddi;digwyddiadau a chanlyniadau'r Urdd ac oriel o staff a llywodraethwyr.

Bydd y wefan yn mynd yn fyw yn y dyddiau nesaf fel ei fod yn barod i'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi. Mae yna lwyth o luniau o'r flwyddyn academaidd hon hefyd. Mwynhewch!

Dyma gyfeiriad gwefan newydd Ysgol Gymraeg Casnewydd – cofiwch i'w gadw yn eich 'favourites'!

www.ysgolgymraegcasnewydd.co.uk

Gallwch hefyd ein dilyn ar Trydar. Ein cyfrif yw:

YsgolGCasnewydd

Mae gennym Blog hefyd – gallwch ddod o hyd iddo ar dudalen NEWYDDION y wefan.

Gobeithio yn fawr y byddwch yn mwynhau dathlu gyda ni.

Y Lindys Llwglyd Iawn

Meithrin

Yn ystod Tymor yr haf mae plant meithrin Sali Mali wedi bod yn brysur iawn yn dysgu am gylch bywyd y pili-pala. Arsylwon ni ar lindys yn tyfu bob dydd. Roedd rhai lindys wedi bod yn bwyta mwy nag eraill! Gwnaethon ni lawer o weithgareddau fel argraffu cylchoedd i greu lindysyn a chreu marciau ar gyfer eu llygaid a theimlyddion, addurno pili-pala yn lliwgar ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, creu lindys a phili-pala yn y toes a chwarae rôl yn yr ardd. Cawson ni lawer o hwyl!



Môr ladron Aaaarrrrdderchog!

Derbyn

Ble yn y byd byddai môr ladron yn cuddio trysor? Wrth ddilyn cliwiau a map aethon ni o gwmpas yr ysgol a'r goedwig; a gyda gwaith tim ffantastig-dyma ni'n dod o hyd iddo yn y tywod! Ysgrifennon ni gwestiynau mewn potel i'r môr ladron. Creuon ni het, patsh llygad a bachyn ac adeiladu llong enfawr. Ar ôl cwblhau'r tasgiau, gwisgon ni fel môr ladron a mwynhau parti!

Llongau Llawen!

Blwyddyn 1

A wyddoch chi fod 60 person yn gallu eistedd yn gyfforddus ar un o longau hir Llychlynwyr? Yn ystod ein thema Sblish, Sblash, Sblosh fe ddysgon ni am gychod a llongau. Penderfynon ni ddarganfod mwy o wybodaeth am longau er mwyn eu trefnu ar linell amser. Efelychon ni lun Van Gogh o longau gan ddefnyddio pasteli i greu effaith diddorol. Yn ogystal â hyn, adeiladon ni gychod, llongau a goleudai yn ein hardaloedd adeiladu, tu fewn a thu allan. Peintion ni luniau o olygfeydd ar lan y môr yn ein hardal arlunwyr ardderchog.

Sgwrio am wybodaeth!

Blwyddyn 2

Plymiodd plant blwyddyn 2 yn awyddus mewn i'w rôl fel haneswyr. Ben bore' roedd disgwyl iddynt edrych yn fanwl ar amrywiaeth o hen arteffactau diwrnod golchi. Yr her oedd meddwl beth oedd enw pob arteffact ac i ddyfalu beth oedd eu pwrpas. Pwy feddyliau mai haearn smwddio oedd y torrwr pren fel tybiwyd y plant? Ac yn ôl y plant hambwrdd oedd yr hen fwrdd sgwrio. Yn lwcus, gyda diferyn o gliwiau a llond bwced o gliwiau fe lwyddon ni i ddatgelu gwir bwrpas y mangl, y bwrdd sgwrio, yr haearn smwddio a'r ddoli.

Pyllau dwr

Blwyddyn 3

Rydyn ni ym mlwyddyn 3 wir wedi mwynhau dysgu am gynefin y pwll dŵr. Ar ddechrau'r prosiect cawsom gyfle i greu pyllau bach dŵr ein hunain ble ddysgon ni am bwysigrwydd rhannau gwahanol y pwll dŵr gan gynnwys y planhgion sydd yno. Aethom i Dy Tredegar i ddysgu sut i dreillio pyllau a bu rhaid i ni fod yn dditectifs gwych i ddarganfod enwau'r creaduriad a welson ni yn y llyn. Yn dilyn hyn aethom i ymchilio creauriaid ymhellach er mwyn creu ffeil o ffeithiau yn ogystal â chreu collage o gylch bywyd y broga. Rydyn wedi dod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am ein pyllau dŵr ac amddiffyn cynefinoedd creaduriaid bach.

Tân! Tân! Tân! Mae'r ddinas ar dân!

Blwyddyn 4

Fel rhan o'n gwaith yn ymwneud â Oes y Stiwardiaid, rydyn ni wedi bod yn ymchwilio a darganfod gwybodaeth ddiddorol dros ben am Dân Mawr Llundain. Oeddech chi'n gwybod fod Samuel Pepys - y dyddiadurwr – wedi claddu ei gaws Parmesan drud yn ei ardd oherwydd doedd e ddim eisiau i'r fflamau poeth ei losgi? Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi darganfod pam roedd y fflamau wedi lledaenu ar gyflymder wrth edrych ar ffilm o strydoedd Llundain cyn y tân. Sylwon ni fod y strydoedd yn gul a phoblog iawn. Defnyddion ni ein gwybodaeth o'r digwyddiad i ysgrifennu erthygl papur newyddion. Gwisgon ni ddillad o'r cyfnod er mwyn iniaethu â'r pobl. Roedden ni hyd yn oed wedi ail-greu y stori yn ein gwersi gwyddoniaeth wrth astudio cysgodion a golau - felly aethon ni ati i greu sioe bypedau cysgodion yn olrhain y stori.

Ein hymweliad i Ddŵr Cymru.

Blwyddyn 5

Yn ystod yr hanner tymor yma, rydyn ni ym Mlwyddyn 5 wedi bod yn dysgu am yr afon! Yn ogystal â dysgu am amrywiaeth o bethau fel sut i fod yn ddiogel wrth yr afon a rhannau pwysig yr afon, cawsom y cyfle i ymweld â safle Dŵr Cymru yng Nghilfynydd. Pan gyrhaeddon ni, roedd dyn o'r enw Matt wedi ein croesawu ac esboniodd yn syth trefn ein hymweliad. Ar ddechrau'r diwrnod, dysgon ni llawer am fywyd pobl yn Affrica a faint o bwysau sydd arnyn nhw i ddarganfod dŵr glan i yfed a defnyddio. Oeddech chi'n gwybod bod rhaid i un aelod o'r teulu gerdded am filltiroedd i nôl un potel fawr o ddŵr brwnt! Felly, aethon am dro i'r afon i nôl poteli fawr o ddŵr a'u chario nôl i'n pentref Affricanaidd. Roedd yn waith caled iawn! Mae Dŵr Cymru yn ceisio codi arian i adeiladu ffynhonnau dŵr i pentrefwyr yn Affrica. Dysgon ni lawer ar ein hymweliad, diolch yn fawr Dŵr Cymru!

O'r Blaen ac Ymlaen

Blwyddyn 6

Yn ystod tymor yr Haf rydyn ni wedi bod yn cymharu degawdau y 40'au a'r 80'au. Rydyn wedi bod yn creu pamffledi am ffasiwn, ffilmiau, chwaraeon a cherddoriaeth y cyfnodau. Ar y 25ain o Fehefin aeth Blwyddyn 6 i amgueddfa'r 1940'au ym Mae Abertawe. Yn yr amgueddfa dysgon ni sut oedd bywyd yn ystod y rhyfel a pha fath o fwyd oedd yn cael eu dogni. Oeddech chi'n gwybod mai dim ond un wy yr wythnos oeddech chi'n derbyn? Pan aroglon ni y gronynnau te, wyau wedi sychu a llaeth wedi sychu roedd pawb yn synnu oherwydd y drewdod!! Sut gall unrhyw un fwyta unrhywbeth sydd yn arogli fel sylffwr!! Hefyd, cawsom y fraint o wisgo dillad o'r cyfnod. Er mwyn profi ein dealltwriaeth o'r cyfnod roedd yna cwis arbennig yn y prynhawn. Nawr rydyn ni yn deall sut oedd bywyd i bobl yn yr 1940'au.

Diolch i'r ysgol, CRA, Miss Pugh a Miss Thomas am ymweliad ysblennydd!!

Hwyl Fawr Blwyddyn 6!

Byddwn yn drist iawn i ffarwelio â Blwyddyn 6 a dymunwn bob lwc i bawb wrth iddynt symud i Ysgol Gyfun Gwynllyw, Bro Edern, St. Josephs, St. Julians a Dyffryn. Mae rhai o'r disgyblion wedi paratoi eu hatgofion o'u hamser yn Ysgol Gymraeg Casnewydd yn arbennig ar gyfer ein rhifyn olaf.

Un o fy hoff atgofion oedd pan wisgais i, Mali, Ffion, a Nia gwisg ffansi ym mlwyddyn 2. Roeddwn i yn wenynen a roedd Mali a Ffion yn pili-pala a roedd Nia yn dylwyth teg. Libby Newell

Fy hoff atgof oedd pan aethon ni i ganiwio yng Nghilwern a roedd pawb yn rasio. Iestyn Taylor

Fy hoff atgof i oedd pan aethon ni i Langrannog a dawnsiodd Tom y 'Gangnam Style' yn y disco. Maddison Seivwright

Fy hoff atgof oedd pan aethon ni i 'Bwll Mawr' ac aethon ni lawr i'r pwll a roedd sŵn mawr! Abigail Doherty

Rwy'n cofio pan wisgodd Miss Thomas fel Oompa loompa! Roedd hi'n oren iawn! Jasmine Butler-Bright

Fy hoff atgof oedd dechrau ym mlwyddyn 5 a derbyn y ddwy athrawes gorau yn y byd!!!! Owain Jones.

Rhoddais sgarff i Miss Davies (Bl.4) a dywedodd y byddai o hyd yn fy nghofio i. Kayley Sydenham

Fy hoff ddiwrnod yn yr ysgol oedd cwrdd â Luca Payne oherydd fe yw fy ffrind gorau. Kaden Kinsella

Fy hoff ymweliad i oedd Llangrannog oherwydd roeddwn i mor gyffrous i gael y cyfle i wneud y gweithgareddau. Ellie- Mai Evans

Fy hoff atgoffion i oedd cwrdd ag athrawon a ffrindiau. Jessica Lewis

Fy hoff ddiwrnod yn yr ysgol oedd ym mlwyddyn 1 pan oeddwn wedi chwarae gyda lego. Presley Power

Un o fy hoffatgofion oedd pan oeddwn i wedi cwrdd ag Owain, Maddy, Rocky a Molly. Roeddwn ni wedi chwarae gyda'n gilydd am y dydd a roeddwn i wedi cwympo yn y bin! George Ovey

Y diwrnod oren oedd fy hoff atgof pan oeddwn ym mlwyddyn 5 roedd en llawer o hwyl! Brandon Lovett

Fy hoff ddiwrnod yn yr ysgol oedd pan ddywedodd Mr. Taylor fy mod wedi cael lle ar y tim athletau i gynrychioli'r ysgol ym mabolgampau Casnewydd yn gwneud y ddisgen. Chloe Coughlin

Winding Snake

Y flwyddyn hon cafodd blwyddyn 6 ei dewis i gymryd rhan ym mhrosiect ' The bird in a cage'. Prosiect am symudiad y Swffragetiaid oedd hyn. Roeddent yn grwp o fenywod a oedd yn brwydro ac yn ymgyrchu dros hawliau i ferched ac yn benodol yn ymgyrchu i geisio sicrhau pleidlais i ferched. Roedd y prosiect yn cynnwys dysgu am hanes y Swffragetiaid , cyfansoddi can a chreu ffilm drwy animeiddio a hyd yn oed creu baner ENFAWR!! Roedden ni wedi mwynhau dysgu am Lady Rhondda – a oeddech chi'n gwybod ei bod hi wedi ffrwydro blwch postio yng Nhasnewydd?

Sioe Bypedau

Daeth Theatr Iolo i'n hysgol i berfformio sioe bypedau i'r Cyfnod Sylfaen. Fe gwrddon ni â cymeriadau diddorol o'r ardd wrth iddyn nhw gyflwyno'r plant i'w bywydau trych-tastig.

Cyngor Eco

Y tymor yma roedd y Cyngor Eco eisiau gwella'r ail-gylchu trwy'r ysgol gyfan. Daeth Jess o Wastesavers i gwrdd â nhw i roi llawer o syniadau ar sut i wella. Diolch i'r Cyngor Eco, mae'r ysgol nawr yn ail-gylchu y poteli llaeth plastig o'r Meithrin a'r Derbyn i gyd a'r ysgrifbiniau sydd wedi torri o'r dosbarthiadau. Ond nid oedd yr athrawon yn mynd i golli allan! Roedd hi'n amser i'r disgyblion cael dial a rhoi bach o drefn ar yr athrawon!! Ar ôl holiadur byr, penderfynodd y Cyngor Eco fod ail-gylchu'r ystafell athrawon yn bell o fod yn ddigonol! Diolch iddyn nhw, mae'r staff nawr yn ail-gylchu yr holl plastig a gwastraff bwyd! Da iawn Cyngor Eco, dyna oedd yr her fwyaf erioed!!!

Barri yn Berwi

Eleni, aeth Blwyddyn 1 a 2 ar drip Haf gyda'i giliydd! Cafodd y plant, athrawon, cynorthwywyr a rhieni amser gwych yn Ynys heulog y Barri. Aethon nhw i'r traeth, cael hufen iâ, mynd yn wyllt yn yr ardal chwarae a hyd yn oed mwynhau ffilm wych ar y bws ar y ffordd adref!

1940au a'r 1980au

Yn ystod y tymor rydyn ni ym mlwyddyn 6 wedi bod yn astudio cyfnod yr 1940'au a'r 1980'au. Fel rhan o'r 1940'au rydyn ni wedi bod yn dysgu am hanes Anne Frank, Y Blitz yn Abertawe a'r plant yn ymgilio. Cawsom ni ddiwrnod yn dathlu y 40au lle roedd pawb yn gwisgo dillad arbennig fel ymgilwyr, merched y tir a milwyr y rhyfel. Coginion ni bisgedi moron a phastai yn llawn llysiau. Roedden nhw yn flasus iawn. Rasiodd pawb gyda'r llwy a'r wy, rasys sach a sgipio. Roedd e'n ddiwrnod yn llawn hwyl.

Ar gyfer diwrnod yr 80'au roedd pawb yn llawn lliw ac yn llachar dros ben! Dysgon ni am brotestio ar gyfer y sianel Gymraeg S4C , protestio am Grange Hill a'r menywod oedd yn protestio am heddwch yn Greenham Common. Roedd pawb yn brysur yn creu posteri am ddisgwyddiadau oedd yn bwysig yn yr 1980au.

Coedwigoedd Cŵl

Roedd Blwyddyn 4 wrth eu bodd ar drip i goedwig Goytre. Darganfyddon nhw sut i fesur cylched coeden i ddarganfod ei oedran; aethon nhw ar helfa trychfilod; creon nhw nythod ar gyfer wy a gafodd eu profi am gryfder; aethon nhw am dro wrth y gamlas a chreu cynefin ar gyfer creadur y goedwig. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod heulog a'r rhyddid i adeiladu a chreu gan ddefnyddio adnoddau natur yn unig.

Cornel y Campau

Athletau Ardderchog

Newyddion da oedd hi i dim athletau blynyddoedd 5 a 6 gan eu bod nhw wedi dod yn ail yn Nhwrnament Athletau Ysgolion Casnewydd. Enillodd tîm y bechgyn y sgor uchaf trwy Casnewydd ac roedd timoedd cyfnewid y bechgyn a'r merched wedi ennill y wobr cyfnewid. Efallai fod gennym ni mwy nag un Christian Malcolm y dyfodol yn ein plith.

Llwyddiant eto i dim athlethau Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn Stadiwm Cwmbran. Ennillon nhw Cystadleuaeth Athletau yr Urdd. Roedd perfformiad y disgyblion yn rhagorol.

Llongyfarchiadau i Cadog am ennill Mabolgampau Bl 1, 2 a 3. Ac i Llanofer am ennil Mabolgampau Meithrin a Derbyn. Yn anffodus daeth y glaw i rwystro Mabolgampau Bl 4, 5 a 6. (Er ein bod ni wedi ail gynllunio ar gyfer y Dydd Iau olaf- croesi bysedd!)

Diwrnod Iechyd a Ffitrwydd

I hybu pwysigrwydd fwyta'n iach a ffitrwydd, fe gynhaliwyd diwrnod iachus yn yr ysgol. Fel rhan o'u gwaith cartref, gofynwyd i'r plant i gynllunio a chreu bocs bwyd iachus ar gyfer y Dydd Gwener. Ar y diwrnod hwnnw cawsom lawer o hwyl wrth wneud rasus cwrs rhwystr, gan wisgo mewn gwisgoedd doniol. Yn ogystal a hyn creuwyd byrbrydiau a phrydiau iachus. Trwy'r ysgol roedd popeth o kebabs ffrwythau a chwpanau ffrwyth a iogwrt i pizza iachus a smwddis. Dangoswyd i bawb yr hwyl sydd i'w gael wrth gadw'n heini a bwyta digon o ffrwythau a llysiau. Diolch i Mrs Morgan, Miss Davies 4b a'r Cyngor Ysgol am helpu i drefnu'r diwrnod.

Da iawn i'r tim rygbi 7 ochr- enillon nhw gystadleuaeth Ysgolion Casnewydd eto eleni. Gorffen ar y brig!!!!!

Unwaith eto, diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu haelioni yn ariannu'r cylchlythyr hwn ac am drefnu nifer o weithgareddau yn ystod y tymor. Os fyddai unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae'r ffurflenni ymaelodi ar gael yn y swyddfa.